


Cronfa Bensiynau Clwyd

Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth

Mawrth 2023



Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Amcanion y strategaeth.....	3
Polisi Llywodraethu.....	3
Strategaeth Weinyddu.....	4
Mathau o dwyll a gwmpesir gan y strategaeth hon	4
Diffiniadau.....	5
I bwy mae'r strategaeth hon yn berthnasol	5
Swyddogion Cyfrifol	6
Yr egwyddorion sy'n sail i'r strategaeth hon	6
Rheoli Twyll.....	7
Atal: Gwreiddio diwylliant o atal twyll.....	7
Rhwystro: Mesurau atal twyll.....	7
Canfod: Canfod, Ymchwilio ac adrodd am dwyll	9
Rhagor o wybodaeth am Sgamiau Pensiwn	10
Mabwysiadu ac adolygu'r strategaeth	11
Rhagor o wybodaeth.....	11
Atodiad: Dogfennau cysylltiedig	12

Cyflwyniad

Dyma'r Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd ("y Gronfa"), a reolir gan Gyngor Sir y Fflint ('yr Awdurdod Gweinyddol').

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu:

- ein hymrwymiad i atal a chanfod twyll
- ein dim goddefgarwch tuag at weithredoedd o dwyll a'n
- hymateb i dwyll.

Mae'n ymwneud yn bennaf â sefyllfaoedd lle mae'r Gronfa mewn perygl o weithgarwch twyllodrus mewn perthynas â'i data neu ei hasedau. Fodd bynnag, er bod gan aelodau gyfrifoldeb i ddiogelu eu hunain rhag twyll, mae gan yr Awdurdod Gweinyddu rôl i'w chwarae i sicrhau bod ei weithdrefnau a'i reolaethau'n cydymffurfio â deddfwriaeth, canllawiau ac arfer gorau perthnasol i amddiffyn ei aelodau a budd-ddeiliaid rhag gweithgarwch twyllodrus sy'n ymwneud â'u buddion pensiwn. Mae'r strategaeth hon felly hefyd yn ymdrin â sefyllfaoedd lle mae aelodau'r Gronfa mewn perygl o gael eu twyllo.

Amcanion y strategaeth

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd ar ran ei fudd-ddeiliaid sy'n cynnwys:

- tua 49,000 o aelodau presennol a chyn-aelodau'r Gronfa, a'u dibynyddion
- tua 50 o gyflogwyr yn ardaloedd Cynghorau Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam
- y trethdalwyr lleol yn yr ardaloedd hynny.

Datganiad Cenhadaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yw:

- cael ein hadnabod fel sefydliad blaengar, ymatebol, rhagweithiol a phroffesiynol sy'n darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid, sydd ag enw da ac sy'n gredadwy, i'r holl gwsmeriaid.
- meithrin diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth risg, llywodraethu ariannol, a byddwn yn darparu gwasanaethau nodedig, o'r ansawdd uchaf, o fewn adnoddau'r gyllideb.
- gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion, gydag ymagwedd sy'n credu yn ein gallu i gyflawni.

Mae gan y Gronfa nifer o amcanion o fewn ei strategaethau a'i pholisïau allweddol. Mae'r amcanion sy'n berthnasol i'r Polisi Twyll a Llygredigaeth hwn yn cynnwys y canlynol:

Polisi Llywodraethu

- Gweithredu er lles gorau aelodau a chyflogwyr y Gronfa

- Bod â threfniadau llywodraethu cadarn ar waith, i hwyluso gwneud penderfyniadau deallus, a gefnogir gan gyngor, polisiâu a strategaethau priodol
- Gweithredu'n onest a bod yn atebol i'n budd-ddeiliaid am ein penderfyniadau, gan sicrhau eu bod yn gadarn a bod sail dda iddynt
- Deall a monitro risg
- Ymdrechu i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth briodol a chanllawiau statudol, a gweithredu yn ysbryd canllawiau perthnasol eraill ac arweiniad arfer orau
- Sicrhau bod cyfrinachedd, uniondeb a hygyrchedd data'r Gronfa, ei systemau a'i gwasanaethau yn cael eu gwarchod a'u cynnal.

Strategaeth Weinyddu

- Gweinyddu'r Gronfa mewn ffordd effeithlon ac effeithiol o ran cost gan ddefnyddio technoleg yn briodol i gael gwerth am arian
- Sicrhau bod y buddion cywir yn cael eu talu i, a bod yr incwm cywir yn cael ei gasglu gan, y bobl gywir ar yr amser cywir
- Cynnal cofnodion cywir a sicrhau bod data yn cael ei ddiogelu a chyda defnydd awdurdodedig yn unig.

Mathau o dwyll a gwmpesir gan y strategaeth hon

Mae'r strategaeth hon yn ymdrin â'r mathau canlynol o dwyll (posibl):

- Twyll talu (h.y. taliad yn cael ei dalu i unigolyn anghywir neu sefydlu cofnod ffug)
- Gordaliadau pensiwn y canfyddir eu bod yn dwyllodrus (pob math)
- Dynwared ffug
- Twyll derbynebaw (arian sy'n dod i mewn yn cael ei ddwyn neu gofnodion o'r symiau sy'n ddyledus yn cael eu haddasu)
- Sgamiau pensiwn yn erbyn aelodau
- Mynediad heb awdurdod i gyfrif banc y Gronfa
- Llwgwrwbrwyo a chydgyllwynio
- Gwyngalchu arian

Mae rhagor o fanylion am y mesurau lliniaru sydd ar waith gan y Gronfa i atal twyll wedi'u cynnwys yn yr adran Rheoli Twyll.

Diffiniadau

Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar y diffiniadau canlynol:

Twyll: lle mae unigolyn wedi cyflawni, neu'n bwriadu cyflawni, gweithred er mwyn cael rhywbeth i nhw eu hunain neu un arall, neu achosi colled i rywun arall, neu amlygu rhywun arall at risg o golled.

Mae Deddf Twyll 2006 (legislation.gov.uk) yn cyfeirio at un drosedd o dwyll y gellir ei chyflawni mewn tair ffordd wahanol:

- Twyll drwy ymhoniad anwir;
- Twyll drwy fethu â datgelu gwybodaeth lle mae dyletswydd gyfreithiol i wneud hynny; a
- Thwyll drwy gamddefnyddio swydd.

Llygredigaeth: lle mae unigolyn sydd wedi cael gymryd mantais drwy fodd sydd yn anghyfreithiol, anfoesol, a/neu anghyson â'u cyfrifoldebau i'r Awdurdod Gweinyddu neu hawliau pobl eraill. Mae enghreifftiau'n cynnwys llwgrwobrwyo er mantais ariannol neu fantais arall gyda'r bwriad o gymell neu wobrwyo perfformiad amhriodol a cheisio dylanwadu ar eraill trwy gynnig, rhoi, deisyfu neu dderbyn cymhelliad neu ddyfarniad.

Llwgrwobrwyo: rhoi neu dderbyn mantais ariannol neu fantais arall mewn cysylltiad â "chyflawniad amhriodol" swydd o ymddiriedaeth, neu swyddogaeth y disgwylir iddi gael ei chyflawni'n ddiduedd neu'n ddidwyll fel y'i diffinnir yn Neddf Llwgrwobrwyo 2010.

Gwyngalchu Arian: trin neu feddu ar eiddo troseddol, gan gynnwys meddu ar enillion trosedd eich hun, a hwyluso unrhyw drin neu feddu ar eiddo troseddol fel y'i diffinnir yn Neddf Elw Troseddau 2002 (POCA).

Pan fyddwn yn cyfeirio at dwyll yn y strategaeth hon, lle bo'n briodol, dylid dehongli hyn i gynnwys llygredigaeth, llwgrwobrwyo a gwyngalchu arian y mae'r Gronfa'n credu eu bod yn rhyng-gysylltiedig.

I bwy mae'r strategaeth hon yn berthnasol

Mae'r Strategaeth yn berthnasol i:

- Holl aelodau a chyn-aelodau Cronfa Bensiynau Clwyd a'u dibynyddion
- Swyddogion y Gronfa
- Cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa
- Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd ("y Pwyllgor")
- Aelodau Bwrdd Pensiynau Clwyd
- Sefydliadau proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau i'r Gronfa (e.e. Ceidwaid, rheolwyr cronfa) ac

- Ymgynghorwyr proffesiynol y Gronfa.

Swyddogion Cyfrifol

O dan Gyfansoddiad Cyngor Sir y Fflint, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am oruchwylio trefniadau'r Cyngor ar gyfer atal a chanfod twyll ac mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am sicrhau bod swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol yn cael ei hariannu a'i chynnal. Mae cyfrifoldebau pellach yn ymwneud ag atal twyll, cadw ac ymateb wedyn yn cael eu dirprwyo i Brif Swyddogion (e, f a g o gymal 4.3 ac e) 5.1 o'r Cyfansoddiad) sy'n cynnwys y Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151 y Gronfa) a Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

Pwyllgor y Gronfa Bensiynau sy'n bennaf gyfrifol am reoli Cronfa Bensiynau Clwyd. Fodd bynnag, mae Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yn gyfrifol am sicrhau bod gofynion y strategaeth hon yn cael eu bodloni. Mae arfer unrhyw ddisgresiwn neu benderfyniadau sy'n ofynnol o dan y strategaeth hon hefyd yn gyfrifoldeb Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, gan gymryd cyngor cyfreithiol arbenigol lle bo'n briodol, oni bai y darperir yn wahanol yn y strategaeth hon neu Gyfansoddiad y Cyngor.

Yr egwyddorion sy'n sail i'r strategaeth hon

Mae'r dull a fabwysiadwyd gan y Gronfa yn unol â Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth Cyngor Sir y Fflint ac mae'n cynnwys proses tri cham fel a ganlyn:

- Atal: trwy gael diwylliant o fewn y Gronfa sy'n atal cyflawni twyll.
- Rhwystro: trwy gael mesurau mewn lle i helpu i atal twyll rhag digwydd.
- Canfod: trwy gael mesurau mewn lle i ganfod twyll os yw'n digwydd.

Rhoddir rhagor o fanylion am y cyfnodau allweddol hyn yn yr adran Rheoli Twyll isod.

Mae'r strategaeth hon hefyd yn ystyried canllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth: Rheoli'r risg o dwyll a llygredigaeth sy'n amlinellu pum elfen allweddol y dylai sefydliadau eu dilyn i osgoi twyll fel a ganlyn:

- Cydnabod cyfrifoldeb y corff llywodraethu dros wrthweithio twyll a llygredigaeth.
- Nodi risgiau twyll a llygredigaeth
- Datblygu strategaeth gwrth-dwyll a llygredigaeth briodol
- Darparu adnoddau i weithredu'r strategaeth
- Cymryd camau i ymateb i dwyll a llygredigaeth

Rhestrir polisïau perthnasol eraill y Cyngor a'r Gronfa sy'n cefnogi'r strategaeth hon yn yr atodiad.

Rheoli Twyll

Atal: Gwreiddio diwylliant o atal twyll

Mae'r Gronfa'n mabwysiadu dull gweithredu yn unol â strategaeth ehangach Cyngor Sir y Fflint sy'n:

- rhoi cyhoeddusrwydd i'w fesurau gwrth-dwyll gan ddefnyddio pob dull sydd ar gael
- yn anelu at orfodi/cynyddu ymwybyddiaeth bod twyll a llygredigaeth yn droseddau difrifol trwy'r wybodaeth gyhoeddus hon ynghyd â gweithredu a chyhoeddi ei Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth.
- yn cydnabod y gall fod angen cymryd camau disgyblu, yn unol â Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth y Cyngor, pe bai digon o dystiolaeth o gymryd rhan mewn gweithgareddau twyllodrus.

Mae aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau ac aelodau'r Bwrdd Pensiynau yn derbyn adroddiadau ar unrhyw weithgareddau twyllodrus sy'n ymwneud â'r Gronfa fel rhan o brosesau rheoli risg y Gronfa. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw ymchwiliadau i honiadau o dwyll neu afreoleidd-dra ynghyd â chamau ataliol a gymerwyd i liniaru'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd eto fel y bo'n briodol.

Mae twyll a phwysigrwydd atal gweithgarwch twyllodrus neu weithgarwch cysylltiedig hefyd yn cael eu hystyried fel y bo'n briodol mewn digwyddiadau hyfforddi Pwyllgorau, Bwrdd a swyddogion.

Rhwystro: Mesurau atal twyll

Mae gan holl swyddogion y Gronfa gyfrifoldeb i helpu i rwystro twyll, llygredigaeth a gweithgarwch troseddol cysylltiedig. Bydd Tîm Rheoli CBC yn sicrhau bod hyfforddiant priodol yn digwydd ar gyfer holl swyddogion y Gronfa a bod lefelau digonol o reolaethau mewnol yn cael eu cynnal o fewn systemau a gweithdrefnau'r Gronfa.

Mae mesurau rhwystro twyll y Gronfa yn cynnwys y canlynol:

1. Mesurau i leihau'r risg y bydd taliadau pensiwn yn parhau ar ôl i aelod farw, drwy fethiant bwriadol i gynghori'r Gronfa
 - a. Cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI), ymarferiad chwe-misol a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cymharu data'r Gronfa ar bensiynwyr ac aelodau gohiriedig â chronfa ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau o'r ymadawedig ac sy'n tynnu sylw at barau i'w harchwilio er mwyn nodi (ac felly atal) gordaliadau posibl i bensiynwyr y Gronfa yn y DU.
 - b. Cymryd rhan yng ngwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith y Llywodraeth. Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi unigolion i roi gwybod am farwolaeth i'r rhan fwyaf o sefydliadau'r llywodraeth ar yr un pryd ac mae'n lleihau'r risg na fydd y Gronfa'n cael gwybod am farwolaeth aelod.

- c. Sgrinio marwolaethau misol mewn perthynas â phensiynwyr y DU, a gynhelir gan ddarparwr sgrinio marwolaethau penodedig y Gronfa.
 - d. Gwiriadau bodolaeth bob tair blynedd mewn perthynas â phensiynwyr tramor y Gronfa.
2. Adolygiadau rheolaidd o bensiynau afiechyd haen 3 sy'n cael eu talu i leihau'r risg y gwneir taliad anghywir i aelodau sydd mewn gwaith â thâl.
 3. Adolygiadau blynyddol o bensiynau plant sy'n cael eu talu i sefydlu statws addysg neu analluogrwydd fel y bo'n briodol, ac fel sy'n ofynnol gan reoliadau'r cynllun i benderfynu ar gymhwysedd parhaus i gael taliad a lleihau'r risg o daliadau anghywir.
 4. Sicrhau bod diogelwch priodol yn ei le ar gyfer cyfleusterau hunanwasanaeth lle gall aelodau wneud newidiadau i rai o fanylion eu pensiwn ar-lein.
 5. Ymchwilio i bost a ddychwelwyd (gan gynnwys slipiau cyflog pensiynwyr) sy'n awgrymu nad yw'r aelod bellach yn byw yn y cyfeiriad a ddeler gan y Gronfa i atal gwybodaeth bellach rhag cael ei hanfon i'r cyfeiriad hwnnw a allai arwain at weithgarwch twyllodrus.
 6. Ymchwilio i daliadau pensiwn a ddychwelir gan fanciau a chymdeithasau adeiladu, er mwyn diogelu arian y Gronfa ac amlygu lle mae'n bosibl nad yw'r Gronfa wedi cael gwybod am farwolaeth pensiynwr.
 7. Sicrhau bod data tâl a data arall sy'n effeithio ar fuddion pensiwn yn cael eu derbyn gan gysylltiadau awdurdodedig cyflogwyr y Gronfa yn unig (ac na all cysylltiadau cyflogwyr gyflwyno data ar eu rhan eu hunain). Mae gwiriadau dilysu data hefyd yn cael eu cynnal o fewn goddefiant penodedig ac yn unol â gweithdrefnau mewnol i atal data rhag cael ei gyflwyno a allai chwyddo buddion aelod drwy dwyll.
 8. Sicrhau bod diwydrwydd dyladwy priodol yn cael ei wneud wrth ymdrin â chyrrff derbyn newydd ac ymuno â hwy er mwyn lleihau'r risg y bydd y Gronfa'n cael ei defnyddio ar gyfer gwyngalchu arian neu at ddibenion twyllodrus eraill.
 9. Sicrhau bod cyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr yn cael eu cysoni'n fisol yn unol â'r amserlenni statudol ac ymchwilio i unrhyw anghysondebau rhwng taliadau, y cyngor taliadau cysylltiedig a chyflwyniadau data aelodau i leihau'r risg na fydd cyfraniadau'n cael eu talu'n llawn i'r Gronfa.
 10. Sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu a chyfyngiadau ar fynediad i'r system fel na all unigolion ofyn am yr un taliadau a'u hawdurdodi.
 11. Sicrhau bod yr holl incwm nad yw'n gyfraniadau a dderbynnir gan y Gronfa, megis taliadau trosglwyddo i mewn o drydydd partiön a thaliadau aelodau i brynu buddion ychwanegol, yn cael ei wirio'n briodol a bod rheolaethau priodol ar waith i leihau'r risg y bydd y Gronfa'n cael ei defnyddio ar gyfer dibenion gwyngalchu arian. Mae hyn yn cynnwys monitro misol a chodio cyfriflyfr priodol o'r holl incwm gan gynnwys arian a godiwyd yn wreiddiol fel arian amrywiol ar ôl ei dderbyn.
 12. Gweithredu gweithdrefnau cadarn ar gyfer newid manylion cyfrif banc ar gyfer pensiynwyr/dibynyddion pan wneir ceisiadau yn ysgrifenedig neu drwy hunanwasanaeth ar-lein. Polisi'r Gronfa yw talu pensiynau i gyfrifon banc yn enw'r pensiynwr yn unig oni bai bod awdurdod ffurfiol i wneud fel arall.
 13. Sicrhau bod prosesau mewnol yn atal swyddogion pensiynau rhag cael mynediad i'w cofnod pensiwn eu hunain a chyfyngu ar fynediad i gofnodion eu priod/partneriaid i

leihau'r tebygolrwydd o dwyll a llygredigaeth mewnol. Mae system meddalwedd gweinyddu pensiynau'r Gronfa yn gallu nodi'r holl newidiadau/dileadau ar gofnodion aelodau ac mae'r risg o ganfod yn ffactor allweddol rhag cyflawni twyll.

14. Prosesau gwirio mewnol yn ymwneud â cheisiadau llafar gan aelodau yn gofyn am wybodaeth am eu pensiwn. Ar gyfer rhai mathau o geisiadau, rhaid i'r galwr basio tri chwestiwn diogelwch cyn y gellir diweddarw cofnod aelod.
15. Trosglwyddo prosesau sy'n cadw at ganllawiau sgamiau pensiwn 2021 y Rheoleiddiwr Pensiynau ac ystyried Cod Ymarfer Da Grŵp y Diwydiant Sgamiau Pensiwn (PSIG) i ddiogelu aelodau'r cynllun.
16. Gweithredu rheolaethau priodol yn ymwneud â throsglwyddo arian rhwng rheolwyr buddsoddi drwy ddefnyddio Ceidwad y Gronfa a thrwy benodi rheolwyr pontio lle bo'n briodol, i leihau'r risg o dwyll neu weithgarwch cysylltiedig.
17. Sicrhau bod yr holl daliadau sy'n mynd allan o gyfrif banc y Gronfa yn amodol ar wiriadau a chymeradwyaethau priodol (yn seiliedig ar derfynau cymeradwyo'r Cyngor) a bod gan swyddogion rif awdurdodi penodedig o fewn y system gyllid i helpu atal twyll drwy sicrhau nad yw taliadau'n cael eu cymeradwyo a'u talu tu hwnt i derfynau awdurdodi unigol.
18. Gorfodi polisi Gwrthdaro Buddiannau'r Gronfa i gefnogi gwneud penderfyniadau cadarn a rheolaeth briodol o'r Gronfa, gan gynnwys lleihau'r risg o dwyll a gweithgarwch cysylltiedig.
19. Cadw at bolisi caffael y Cyngor mewn perthynas â phenodi cyflenwyr i leihau'r risg o ddyfarnu contractau'n amhriodol a honiadau posibl o lwgrwobrwyo neu gydgyllwynio
20. Cynhelir adolygiadau archwilio blynyddol gan dîm archwilio mewnol Cyngor Sir y Fflint ar draws meysydd penodol o weithgarwch y Gronfa a all chwarae rhan ataliol hanfodol wrth sicrhau bod systemau, gweithdrefnau a rheolaethau ar waith i atal a chanfod twyll a llygredigaeth.
21. Archwiliad allanol annibynnol blynyddol o gyfrifon ariannol y Gronfa i ddarparu diogelwch pellach i atal a chanfod twyll a llygredigaeth. Wrth gymeradwyo'r cyfrifon ariannol, mae cyfrifoldebau'r archwilydd yn cynnwys cael sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn natganiadau ariannol y Gronfa, boed hynny oherwydd twyll neu wall. Ymhellach, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid a Chadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau lofnodi llythyr yn datgan eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau o ran dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaethau mewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Canfod: Canfod, Ymchwilio ac adrodd am dwyll

Mae un o'r risgiau twyll mwyaf i'r Gronfa yn ymwneud â mynediad heb awdurdod i gyfrif banc y Gronfa. Mae'r canfyddiadau allweddol y mae'r Awdurdod Gweinyddol yn eu gweithredu yn cynnwys:

- cysoni'r sefyllfa agor a chau yng nghyfrif banc y Gronfa â'r holl daliadau sy'n dod i mewn ac yn mynd allan yn fisol i sicrhau bod pob taliad yn cael ei dderbyn yn ôl y disgwyl, a bod credydwy'r yn cael eu gwirio yn erbyn rhif y gwerthwr

- gwiriadau wythnosol o gofnodion yn y cyfrif banc i nodi unrhyw daliadau amheus.

Dylai pawb sy'n cael eu cynnwys yn y strategaeth hon adrodd am achosion a amheuir o dwyll a llygredigaeth yn unol â Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth y Cyngor. Dylai'r rhai nad ydynt yn ddarostyngedig i bolisi a gweithdrefnau'r Cyngor, (gan gynnwys cynghorwyr allanol ac aelodau'r Bwrdd Pensiwn) adrodd am achosion a amheuir i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a fydd wedyn yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor yn cael eu dilyn cyn belled ag y bo modd.

Mae'r ymchwiliad a'r camau gweithredu sydd eu hangen yn debygol o amrywio yn seiliedig ar natur a math y digwyddiad ond maent yn cynnwys sefyllfaoedd lle gallai buddion aelodau gael eu gordalu, neu lle gellir cael gafael ar arian Cronfa Bensiynau oherwydd gweithred dwyllodrus.

Yr egwyddorion cyffredinol a ddefnyddir mewn perthynas ag achosion o dwyll:

Bydd y Gronfa bob amser yn ceisio adennill arian oddi wrth yr unigolion hynny sy'n twyllo'r Gronfa. Bydd pob achos o dwyll amheus neu wirioneddol yn cael ei ddogfennu a'i ymchwilio. Bydd camau adennill priodol a/neu achosion troseddol yn cael eu cychwyn i adennill arian a gollwyd lle nodir twyll gwirioneddol, gan gysylltu â thîm archwilio mewnol y Cyngor, lle bo'n briodol ac yn unol â chynllun ymateb Twyll ac Afreoleidd-dra'r Cyngor. Os yw'r weithred dwyllodrus wedi arwain at ordaliad, yna bydd Polisi Gordalu a Thandalu'r Gronfa hefyd yn cael ei ddilyn.

Gellir datrys y setliad gordaliadau drwy broses gyfreithiol sifil neu droseddol briodol a all gynnwys cysylltu â'r Heddlu.

Lle mae gweithred o dwyll neu ddrwgweithredu yn cael ei ddarganfod gan unrhyw un sy'n dod o dan y strategaeth hon nad yw'n ymwneud ag arian (e.e. gweithred o lwgrwobrwyo anariannol neu ffugio data), bydd swyddogion y Gronfa yn sicrhau bod y dystiolaeth yn cael ei dogfennu a dilyn y camau gweithredu yng nghynllun ymateb y Cyngor (sy'n dibynnu ar bwy sydd wedi cyflawni'r twyll a amheuir). Mae archwilio mewnol yn debygol o fod yn rhan o hyn a'r camau ymchwiliol sydd eu hangen, ac mae'r canlyniadau'n debygol o amrywio yn dibynnu ar natur a math y twyll a phwy sydd wedi'i gyflawni. Yn achos digwyddiad twyllodrus sy'n ymwneud â'r Gronfa nad yw wedi'i gynnwys yng nghynllun ymateb y Cyngor, ceir cyngor gan yr Archwilyd Mewnol a cheir cyngor cyfreithiol os bernir bod hyn yn briodol.

Wrth ymdrin â phob digwyddiad twyllodrus a amheuir a gwirioneddol, bydd y Gronfa hefyd yn dilyn yr egwyddorion a nodir yng Ngweithdrefn y Gronfa ar gyfer Cofnodi ac Adrodd am achosion o Dor-Cyfraith, yn ogystal â Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth Corfforaethol a Chynllun Ymateb i Dwyll ac Afreoleidd-dra Cyngor Sir y Fflint.

Rhagor o wybodaeth am Sgamiau Pensiwn

Mae un o'r risgiau mwyaf o dwyll posibl yn ymwneud ag aelodau'r cynllun yn ymwneud â cheisiadau gan aelodau i drosglwyddo eu buddion allan. Mae sgamiau pensiwn ledled y diwydiant ar gynnydd ac mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn cymryd camau rheolaidd i ddiweddarau ei ganllawiau sgamiau. Mae'r canllawiau'n cynnwys opsiynau i gynlluniau

pensiwn wrthod trosglwyddiad neu gyfeirio aelodau at MoneyHelper yn seiliedig ar rai amgylchiadau.

Mae'r Gronfa yn cymryd y risg hon a'i hymrwymiad i ddiogelu ei haelodau o ddifrif. Polisi'r Gronfa yw sicrhau bod unrhyw ddiweddariadau'n cael eu gwneud yn brydlon i'w gweithdrefnau mewnol yn unol â gofynion y Rheoleiddiwr. Bwriad hyn yw lleihau'r risg o sgam posibl yn llwyddiannus a thrwy hynny amddiffyn yr aelod, a'r Gronfa rhag y risg o'r math hwn o dwyll.

Fel rhan o arfer da parhaus mae'r Gronfa wedi cymryd 'yr addewid' i frwydro yn erbyn sgamiau pensiwn. Mae hyn yn cynnwys addo ymrwymiad i gyfres o gamau yn ymwneud â sgamiau pensiwn.

Mabwysiadu ac adolygu'r strategaeth

Cymeradwywyd y Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth hon gan Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd ar 29 Mawrth 2023.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r strategaeth hon yn ôl yr angen yng ngoleuni newidiadau i'r CPLIL neu ddeddfwriaeth berthnasol arall yn y dyfodol. Bydd hefyd yn cael ei adolygu o leiaf bob tair blynedd a'i ddiweddarau yn ôl yr angen. Caiff diweddariadau eu cymeradwyo gan Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd a chyhoeddir y strategaeth ddiwygiedig fel dogfen gyhoeddus ar ôl ei chymeradwyo.

Rhagor o wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am unrhyw beth yn y Strategaeth hon neu'n gysylltiedig â'r Strategaeth hon, cysylltwch â:

Philip Latham, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NA
E-bost: Philip.Latham@flintshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01352 702264

Atodiad: Dogfennau cysylltiedig

Dogfennau Cyngor Sir y Fflint:

- Strategaeth gwrth-dwyll a llygredigaeth (gan gynnwys cynllun ymateb i dwyll)
- Cofnodi ac adrodd am achosion o dor-cyfraith
- Polisi Gwyngalchu Arian
- Polisi Rhannu Pryderon
- Codau Ymddygiad
- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- Polisi a chofrestr o anrhegion a lletygarwch
- Polisi a chofrestr Risg
- Polisiâu a chofrestr buddiannau ariannol a gwrthdaro buddiannau

Polisiâu a strategaethau cysylltiedig â Chronfa Bensiynau Clwyd:

- Strategaeth Seiber a chanllawiau seiber-hylendid a Chynllun Ymateb i Ddigwyddiad
- Polisi gordaliadau a thandaliadau
- Strategaeth Weinyddol
- Strategaeth Gyfathrebu

Gwefannau defnyddiol eraill:

Deddf Twyll 2006: Deddf Twyll 2006 (legislation.gov.uk)

Cod Ymarfer CIPFA: Cod ymarfer ar reoli'r risg o dwyll a llygredigaeth | CIPFA

Y Fenter Twyll Genedlaethol: Menter Twyll Genedlaethol: GOV.UK (www.gov.uk)

Canllawiau ar Sgamiau i Reoleiddwyr Pensiynau: Ein strategaeth i frwydro yn erbyn sgamiau pensiwn: Y Rheoleiddiwr Pensiynau



cronfabensiynaclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.